NEA Cymru
Ymgyrchu Dros Gartrefi Clyd
Campaigning for Warm Homes

Archwiliad Marchnadoedd Cyflenwi Ynni – Galwad am Dystiolaeth

Ymateb i Ymgynghoriadau

Sylwadau gan National Energy Action Cymru

http://www.ofgem.gov.uk/Markets/RetMkts/ensuppro/Documents1/Energy%20Supply%20Markets%20Probe%20-%20Call%20for%20Evidence.pdf (Saesneg)

http://tinyurl.com/5wjxc4

1. Cyflwyniad

1.1 Mae National Energy Action Cymru (NEA Cymru) yn croesawu'r cyfle i wneud sylwadau ar alwad Ofgem am dystiolaeth. Mae NEA Cymru'n rhan o elusen National Energy Action (NEA) y DG. Mae NEA wedi bod yn weithredol yn yr ymgyrch i gael gwared a thlodi tanwydd yn y DG am dros 25 mlynedd. Rydym yn hyrwyddo datblygiad a hyrwyddiad gwasanaethau effeithlonrwydd ynni i fynd i'r afael â phroblemau gwresogi ac insiwleiddio aelwydydd ar incwm isel. **Mae NEA Cymru'n cefnogi'n gryf ymateb NEA i alwad Ofgem am dystiolaeth a byddwn yn cyfyngu ein hymateb i sylwadau sy'n benodol i Gymru.**

Daw'r ymgynghoriad hwn ar adeg pan fo nifer yr aelwydydd yng Nghymru mewn tlodi tanwydd wedi bron a dyblu ac ar y lefel uchaf a welwyd ers degawd o ganlyniad i gostau cynyddol ynni. Mae ein pryderon arbennig am weithrediad y farchnad ynni'n gysylltiedig gyda phryderon am annhegwch mewn costau trydan: annhegwch rhanbarthol ac annhegwch cymdeithasol.

2. Safbwynt y cwsmer a'i brofiad o'r farchnad

2.2 Mae gan Gymru broblemau arbennig gydag amddifadedd cymdeithasol ac economaidd ac mae ganddi nifer uwch o ddefnyddwyr agored i niwed na'r rhan fwyaf o rannau eraill y DG.[1] Mae ymchwil Ofgem[2] i gyfnewid wedi dangos bod defnyddwyr agored i niwed yn gyffredinol yn llai tebygol o gyfnewid cyflenwr. Yn rhannol, mae hyn yn ymateb rhesymol i risg. Nid oes gan aelwydydd tlawd y gallu i reoli canlyniadau ariannol taliadau dwbl er enghraifft, oherwydd problemau gyda debyd uniongyrchol. Aros gyda'u darparwr presennol yw'r dewis mwyaf diogel a rhesymol.

2.3 Mae hefyd yn glir bod y farchnad ynni'n rhy gymhleth i'r rhan fwyaf o'r boblogaeth allu gwneud y dewis economaidd mwyaf manteisiol. Mae rhwng pumed rhan a thraean o ddefnyddwyr yn cyfnewid i dariff sy'n ddrytach mewn gwirionedd[3]. Nid ydynt wedi gwneud hyn oherwydd eu bod eisiau colli arian ond oherwydd bod y farchnad a'r wybodaeth mor gymhleth. Er mai dim ond £14 i £35 y flwyddyn yw cost net y fath golled i ddefnyddwyr, gall y symiau bychain hyn wneud gwahaniaeth sylweddol i gyllideb yr aelwydydd mwyaf tlawd.

2.4 Mae ymrwymo gyda'r farchnad hynod gymhleth hon yn gofyn am gryn sgiliau. Mae llawer gormod o bobl ar draws y DG ddim yn meddu ar y sgiliau hyn, yn arbennig yng Nghymru ble ceir problem sylweddol gyda llythrennedd, rhifedd a sgiliau ariannol sylfaenol.

3. Cyfran marchnad y cyflenwyr – cyflenwyr presennol

3.1 O ystyried mai defnyddwyr agored i niwed sy'n lleiaf tebygol o gyfnewid, mae ymddygiad cyflenwyr presennol yn cael effaith anghyfartal ar y grŵp hwn. Mae NEA Cymru felly'n bryderus ynglŷn ag ymarfer cyflenwyr presennol sy'n codi cyfraddau uwch na'u cystadleuwyr yn y farchnad. Mae NEA Cymru'n annog Ofgem i ymyrryd i ddileu'r ymarfer sy'n golygu bod cwsmeriaid ffyddlon mewn gwirionedd yn cael eu cosbi am eu ffyddlondeb. Cred NEA Cymru bod diogelwch cymdeithasol yn gyfiawnhad priodol i

[1] Cyngor Defnyddwyr Cymru 2001, Anfantais Defnyddwyr a Marchnadoedd Amherffaith

[2] 2008. Defnyddwyr yn Gyntaf Ofgem – Canfyddiadau Allweddol. Ymchwil defnyddwyr a gynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad a Defnyddwyr yn Gyntaf Ofgem

[3] Rhwymedigaethau cymdeithasol a rheoleiddio economaidd, Yr Athro Catherine Waddams, Canolfan Polisi Cystadleuaeth, 2004.

ymyrraeth yn y farchnad o ran prisiau sy'n cael eu codi ar gwsmeriaid ffyddlon, a derbyn mai grwpiau agored i niwed fyddai'n cael y budd mwyaf.

4. Ysfa gystadleuol prisiau cyflenwyr a phrisio cost effeithiol

4.1 Mae NEA Cymru'n pryderu bod defnyddwyr yng Nghymru'n talu mwy am eu trydan na'r rhai hynny mewn rhannau eraill o Brydain Fawr. Cafwyd tystiolaeth gan Golwg ar Ynni Cymru i Bwyllgor Cynaladwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru[4] yn ddiweddar yn dangos bod aelwyd nodweddiadol yng Nghymru'n talu rhyw 10 y cant yn fwy am eu trydan na chwsmeriaid mewn ardaloedd eraill. Roedd yr ymchwil yn dynodi bod costau ychwanegol i wasanaethu, yn arbennig codi tâl am grid, yn cyfrif am ychydig dros hanner y premiwm a dalwyd gan ddefnyddwyr yng Nghymru. Yn ein barn ni, mae'n annerbyniol i godi tâl grid gwahaniaethol mewn gwahanol ardaloedd yn y DG, gan greu anfantais i ddefnyddwyr yn seiliedig ar ddaearyddiaeth. Mae NEA Cymru'n cefnogi cyflwyno codi tâl grid teg a chyffredinol ar draws Prydain Fawr. Mae'r Post Brenhinol yn gosod cynsail eglur ble mae gwasanaeth angenrheidiol yn cael ei ddarparu trwy asiant masnachol yn gweithredu strwythur codi tâl cyffredinol i bawb.

[4] http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-sc-home/bus-committees-third-sc-agendas.htm?act=dis&id=80589&ds=4/2008